

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk


Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws. Mae'r sefyllfa o weithio o adref yn parhau ac rydym yn awyddus i sicrhau ein bod ni fel ysgol yn medru eich cefnogi fel teuluoedd dros yr wythnosau nesaf.

Yn ystod ein cyfarfodydd staff arlein heddiw rydym wedi bod yn mireinio'r tasgau ac yn ystyried sut i'ch cefnogi orau wrth weithio'n ddigidol. Gobeithio eich bod yn ymwybodol o fy llythron blaenorol a'r sefyllfa o osod tasgau yn Teams ar Hwb ar gyfer disgyblion Blynnyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6. Mi fydd Teams yn galluogi i ddisgyblion a staff gyfathrebu gyda'i gilydd a derbyn negeseuon gan yr athrawon. Mi fydd gweithgareddau wythnosol ar gyfer y Meithrin a'r Derbyn yn parhau trwy ddolen ar wefan yr ysgol yn unig.

Rwy'n rhagweld y bydd y ffordd newydd o weithio yn medru bod yn heriol weithiau gyda chysylltiadau â'r we ag offer cyfrifiadurol yn amrywio o un cartref i'r llall. Er mwyn lleddfu pryderon hoffwn eich atgoffa o'r trefniadau ar gyfer wythnos nesaf pan fydd athro / athrawes eich plentyn yn eich ffonio ar ddydd Llun, Ebrill 20fed neu ddydd Mawrth, Ebrill 21ain. Cofiwch ei bod hi'n bosib y bydd yr alwad yn ymddangos fel 'No Caller ID'. Prif bwrpas y sgwrs fydd cael trafodaeth am ddysgu digidol yn y cartref ac unrhyw gymorth addysgol / cymdeithasol sydd ei angen arnoch.



Mi fyddaf yn danfon llythyr atoch drwy wefan yr ysgol bob dydd Gwener er mwyn eich diweddarau a'ch hysbysu o unrhyw newidiadau i'r drefn. Gallwch hefyd e bostio ar prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Cofion gore atoch, R C Williams, Pennaeth 17/04/2020

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk


Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils - we hope you are keeping healthy and safe and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus. The situation of working from home continues and we are keen to ensure that we as a school can support you as families over the coming weeks.

During our online staff meetings today, we have been refining the tasks and considering how best to support you in working digitally. I hope you are aware of my previous letters and the situation of setting tasks in Teams on Hwb for Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6. Teams will enable pupils and staff to communicate with each other and to receive messages from the teachers. Weekly activities for Nursery and Reception will continue through a link on the school website only.

I anticipate that the new way of working may be challenging sometimes with internet links and computer equipment varying from one home to another. To allay concerns I would like to remind you of the arrangements for next week when your child's teacher will call you on Monday, April 20th or Tuesday, April 21st. Remember that the call may appear as 'No Caller ID'. The main purpose of the call will be to discuss digital learning at home and any educational / social support you need.



I will send you a letter through the school website every Friday to update you and inform you of any changes to the procedure. You can also email at prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

kindest regards, R C Williams, Headteacher 17/04/2020